

Y TYST

Sefydlwyd 1867

Cyfrol 159

Rhif 40

Hydref 1, 2026

50c.

Adeiladu ar y graig

Cynhaliwyd Cwrdd Chwarter Cyfundeb Môn yng Nghapel y Tabernacl, Porthaethwy ar 9 Medi, a daeth dros 20 yno unwaith eto i drafod amrywiol faterion perthnasol i'r eglwysi. Y Parchg Ddr Geraint Tudur oedd yn cadeirio'r cyfarfod, ac wedi iddo groesawu pawb a diolch i weinidog a chyfeillion y Tabernacl am gael cynnal y cyfarfod yno, daeth y Parchg J. Ron Williams ymlaen i arwain y defosiwn. Darllenodd y darn am y ddwy sylfaen, y tywod a'r graig, a'n hannog i barhau i adeiladu ar gadernid y graig, a darparu'r un sylfaen i'n plant a'n hieuenctid trwy addysg dda. Offrymodd weddi wedi hynny, yn gofyn am fendith Duw ar y cyfarfod.



Gwaith y dydd

Yn dilyn derbyn ymddiheuriadau, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf fel rhai cywir. Nid oedd dim yn codi o'r cofnodion hynny. Daethpwyd at faterion yr ysgrifennydd, Irfon Morris. Tynnodd ein sylw at y cwrs ar y sacramentau y mae Carwyn Siddall yn ei gynnal ar hyn o bryd ar Zoom bob nos Lun, cyn mynd ymlaen i nodi cynnwys y neges ddiweddaraf o Dŷ John Penri oedd yn sôn am gynlluniau, dan nawdd Cyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM), i baratoi deunydd fideo ar gyfer eglwysi i'w ddefnyddio yn eu gwasanaethau. Soniodd hefyd fod trefn tanysgrifio i'r Undeb yn newid eleni, er mwyn i'r tanysgrifiadau ddod yn gynharach yn y flwyddyn. Cyfeiriodd wedyn at

arolwg Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sef 'Capeli Cymru: Gwarchod Treftadaeth Anghydfurfiol Cymru', ac anogaeth yr Undeb i ni lenwi'r holiadur sydd i'w gael ar lein. Y cyfeiriad yw: <https://zurl.co/O1PeG>

Nodwyd ein bod wedi derbyn gwybodaeth am weithgarwch mudiad Cynnal yn dilyn anfon cyfraniad ariannol ato, a hefyd bod Sul y Cyfundeb ar 2 Mai 2027 i'w drefnu ac felly na ddylai eglwysi drefnu gwasanaethau ar y Sul hwnnw.

Gweledigaeth

'Cynllun Gweinidogaeth Cyfundeb Môn' ddaeth nesaf, a gwahoddwyd y cadeirydd i esbonio'r cefndir trwy ddweud am y cyfarfod a gynhaliwyd yn Berea, Pentreberw ar 15 Mehefin ar gyfer cynrychiolwyr o eglwysi di-weinidog y Cyfundeb. Allan o'r 14 o eglwysi a wahoddwyd, dim ond wyth a anfonodd gynrychiolydd, ond dywedwyd nad yw'n rhy hwyr hyd yn oed yn awr i'r eglwysi absennol ymuno yn y trafodaethau. Yn dilyn y gair gan y cadeirydd, dywedwyd fod cyfarfod ychwanegol wedi ei drefnu i drafod y posibiladau ar gyfer yr eglwysi, y tro hwn yn y Tabernacl, Porthaethwy ar 30 Medi, a bydd Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb yr Annibynwyr, Elinor Wyn Reynolds, yn dod atom i ateb cwestiynau'r eglwysi.



mwy ar dudalen 2

Heddwch neu dangnefedd?

Dyma fyfyrddod ar gyfer y Diwrnod Heddwch Rhyngwladol gan Guto Prys ap Gwynfor, cadeirydd y Rhwydwaith Heddwch, a gynhaliwyd ar 20 Medi.

Mae yna ddau air, 'heddwch' a 'tangnefedd' yn y Gymraeg sy'n cael eu defnyddio i gyfieithu'r gair Groeg εἰρήνη (eirene) sy'n y Testament Newydd. Gan fod gennym ddau air tueddwn gredu bod yna ryw wahaniaeth yn yr ystyr. Dywed rhai bod 'heddwch' yn golygu cyflwr cymdeithasol neu wleidyddol, a bod 'tangnefedd' yn golygu rhywbeth mwy mewnol a phersonol. Canlyniad y math yna o ddehongli yw dod i'r casgliad taw rhywbeth unigolyddol a phersonol yw'r hyn a ddywed Iesu yn ei neges chwyldroadol yn

y Bregeth ar y Mynydd (Mathew 5:9): 'Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.' Camddehongli yw hynny sy'n arwain at gamddealltwriaeth sy'n peryglu neges yr Efengyl.

Eirene

Ym mhob man lle mae 'tangnefedd' a 'heddwch' yn ymddangos yn y Testament Newydd y gair εἰρήνη sydd yn y gwreiddiol. Y gair a ddefnyddir yn y gwynfyd pwerus hwn yw εἰρηνοποιός (eirenopoios) sef, o'i gyfieithu yw 'gwneuthurwr heddwch', un sydd yn gweithredu heddwch.

Mae'r camddehongli uchod yn gwneud Iesu i swnio fel petai yn ein hannog i ganolbwyntio ar ein cyflwr personol, mewnol. Mae'n siŵr fod Iesu am i ni wneud hynny beth bynnag, ond nid dyna a ddywed yn y gwynfyd hwn. Ceir

parhad ar dudalen 7



Adeiladu ar y graig – parhad

Manylion pellach

Derbyniwyd adroddiadau byr gan yr eglwysi hynny oedd wedi derbyn grant gan y Cyfundeb yn y cyfarfod diwethaf, sef Siloam, Talwrn ac Ebeneser, Llanfairpwll. Yn y ddau gapel, yr oedd y gwaith angenrheidiol wedi ei gwblhau. Gwaetha'r modd, nid dyna'r sefyllfa gyda gwerthiant capeli Maenaddwyn na Noddfa, Caergybi. Yr oedd y gwerthiannau eto i'w cwblhau.

Mynegodd y Parchg O. G. Williams, Amlwch, ei fod yn awyddus i gael ei ryddhau o fod yn ymddiriedolwr mynwent Bethania, Llanddeusant. Mewn ymateb i glywed hynny, mynegodd Edward Morus Jones ei barodrwydd i gymryd ei le, a diolchwyd i'r ddau ohonynt am eu gwasanaeth.

Yn olaf, nododd yr ysgrifennydd fod trafodaethau ynglŷn â sefyllfa capel Maes-y-llan yn parhau, a diolchwyd i Donald Glyn Pritchard, Llannerch-y-medd (yn ei absenoldeb), am ei gymorth yn y mater hwn.

Diolchodd y cadeirydd i'r ysgrifennydd am ei waith manwl a gofalus. Cyflwynodd y trysorydd, Bryn Mortimer-Roberts, adroddiad byr o wariant y Cyfundeb ers mis Chwefror diwethaf. Soniodd hefyd am fynwent capel Salem, Bryngwran ac am ddwy garej gysylltiedig â'r fynwent. Ychwanegodd y bydd mantolen ariannol yn cael ei hanfon at yr eglwysi maes o law. Diolchwyd iddo gan y cadeirydd am ei waith.

Nid oedd gan y cadeirydd unrhyw fater i'w drafod, ond cafwyd adroddiad cynhwysfawr o Gyfarfodydd Blyneddol Undeb yr Annibynwyr yn Abertawe gan y Parchg J. Ron Williams. Cafwyd cyhoeddiad hefyd gan Aled Griffiths am gyfarfod 'Achub y Plant' oedd i'w gynnal yn Emaus, Bangor ar nos Iau, 10 Medi.

Cyhoeddwyd mai yn Ebeneser, Rhosmeirch y bydd y Cwrdd Chwarter nesaf, a hynny, gobeithio, am 6.30pm ar 4 Tachwedd. Os bydd y dyddiad, yr amser neu'r lleoliad yn newid, bydd yr ysgrifennydd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r eglwysi.

Daeth y cyfarfod i ben trwy i'r cadeirydd offrymu gweddi ac i bawb gydadrodd y fendith.

GOHEBIAETH

Mwy am 'Yr Ysbryd Glân'

Yn *Y Tyst* yn ddiweddar (30/7–6/8) mae ysgrif yn fy enw, 'Yr Ysbryd Glân – dim diolch'. Byrdwn fy neges yw fy nheimlad ansicr gyda'r defnydd o 'Yr', gan fod hwn yn sawru i mi o ddieithrwch. Ar ddiwedd yr ysgrif gosodais awgrym i ddarllenwyr 'gywiro' pob emyn yn *Caneuon Ffydd*, gan gofio sylw Pennar Davies (1911–96) bod modd synhwyro diwinyddiaeth y Cymry Cymraeg yn eu hemynau. Gan fod y gwres mawr yn para ym mis Awst ac yn peri i mi fod yn dawel, penderfynais ddilyn f'awgrym fy hun. Dyma ychydig o ffrwyth y chwilota.

1. O'r 873 emyn mae 97 (11.1%) ohonynt yn cynnwys y gair YSBRYD. O'r 873 mae 32 (3.6%) yn methu fy mhrawf i, sef, eu bod yn cynnwys y fannod, ar ffurf Yr neu 'r, yn dilyn neu o flaen YSBRYD. Os hoffech wirio neu herio fy nadansoddiad, dyma nhw, 15, 48, 51, 90, 117, 132, 134, 135, 243, 396, 433, 506, 560, 568, 569, 571, 573, 576, 579, 582, 587, 602, 606, 607, 620, 622, 624, 629, 649, 662, 835.
2. Beth am rai o'n prif emynwyr?
 - a) Mae 14 emyn yn enw Ann Griffiths. Ond does dim un

cyfeiriad ganddi yn cynnwys Ysbryd, ond nodar ail bennill 756 nad yw yn waith Ann.

- b) Enw Pantycelyn sy' wrth 86 emyn, gyda 3 ohonynt yn cynnwys d'Ysbryd (241 a 575), a'th Ysbryd (743).
- c) Enw Elfed sy' wrth 44 emyn, gydag Ysbryd Glân yn emyn 25, ceir d'Ysbryd yn 260, dy Ysbryd yn 717 a 720, wyrthiau'r Ysbryd Glân yn 569, cledd yr Ysbryd Glân yn 602.

Mae'n ymddangos felly nad yw'r Cymry Cymraeg, o sawl cyfnod amser, yn rhoi pwys mawr ar y ddelwedd hon o Ysbryd Glân. Un cwestiwn sy'n aros. Gyda'r data uchod sut cafodd 'Yr Ysbryd Glân' gymaint o sylw, er enghraifft, tybiaf fod y mwyafrif mawr o oedfaon Cymru yn cloi gyda'r fendith, 'Gras... Cariad... Cymdeithas yr Ysbryd Glân' a hynny dan arweiniad llawer o unigolion ordeiniedig. Holais gydag ambell un a chael yr ymateb, 'Felna mae wedi bod...' Beth am newid i fendith wahanol?

Beth am y Beibl? Bydd rhaid aros am gyfnod arall o dywydd twym. Os daw, byddaf yn troi at gampwaith Owen E. Evans, *Mynegair i'r Beibl Cymraeg Newydd*.

Gyda llaw, wrth chwilota yn *Caneuon Ffydd*, cefais fudd o gofio a dysgu sawl perl, megis, 'Na farna Dduw a'th reswm noeth' (66) a 'Bydd yn dawel yn dy Dduw' (146); mae 694 yn ffeffryn arall.

Neville Evans



O Ysbryd byw, dylifa drwom,
bywha dy waith â grym y groes.
O Ysbryd byw, tyrd, gweithia ynom,
cymhwysa ni i her ein hoes.

Dathlu 60 mlynedd o weithgarwch y Cyngor Ysgolion Sul

Mae'r elusen Gristnogol Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru yn dathlu ei phen-blwydd yn 60 oed eleni. Sefydlwyd y Cyngor gan bum enwad Cymreig yn ôl yn 1966, sef yr Annibynwyr, y Bedyddwyr, yr Eglwys yng Nghymru, y Methodistiaid a'r Presbyteriaid. Fe ddaeth y pum enwad at ei gilydd er mwyn cydweithio i ddarparu adnoddau Cymraeg ar gyfer eu heglwysi, ac o'r cychwyn cyntaf buont yn bartneriaid llawn yn y gwaith, gan ariannu a chefnogi'r gwaith yn ymarferol. Diolch i bawb a fu'n rhan o'r stori, yn weithwyr ac yn wirfoddolwyr, heb anghofio aelodau ac ymddiriedolwyr y Cyngor.

Mae llawer i ddiolch amdano dros gyfnod o 60 mlynedd, o ddyddiau cynnar cyhoeddi *Beibl Lliw y Plant* a'r cylchgrawn *Antur*, i drefnu gwersylloedd a gornestau chwaraeon i blant, sefydlu gwasg gyhoeddi Cyhoeddiadau'r Gair, a bod yn un o bartneriaid gwreiddiol cwmni Roots for Churches sy'n darparu llw o adnoddau newydd bob wythnos. Yng nghyfnod y swyddogion datblygu roedd modd ymweld ag ysgolion Sul lleol, gan gynnig hyfforddiant ac adnoddau, a chario tomenni o lyfrau i bob rhan o Gymru. Bydd llawer yn cofio'r triplau ysgol Sul i Butlins ac Oakwood, oedd yn denu 10,000 o blant yn flynyddol yn eu hanterth yn y 90au. Bu'r cwis Beiblaidd a gornestau chwaraeon yn hynod boblogaidd am flynyddoedd, a chanfod yr ysgol Sul fuddugol dros Gymru yn y meysydd hyn. Cyflwynwyd cannoedd o fedalau Gee i ffyddloniaid yr achos, gan gynnwys nifer o fedalau anrhydedd i rai a wnaeth gyfraniad nodedig yn genedlaethol i waith yr ysgol Sul yng Nghymru.

Datblygodd y gwaith cyhoeddi i gynnwys llyfrau a Beiblau lliwgar i blant, dewis o werslyfrau ac esboniadau, ynghyd â llyfrau defosiynol i oedolion, gan gefnogi gwaith yr eglwysi lleol. Cafwyd



llyfrau gyda sticeri, jig-sos, effeithiau sain a golau, yn ogystal â llyfr a llechen ddigidol ynddo. Bellach cyhoeddwyd dros 1,100 o deitlau amrywiol gan y wasg honno. Bydd adnoddau addysgol fel Cyfres y Gair, *Sbloets*, *Gôl* a *Stilio*, *Ar y Ffordd*, *Golau ar y Gair* a Chyfres Stori Duw yn gofiadwy i lawer o blant ac athrawon fel cynlluniau dysgu yn yr ysgol Sul, gan fabwysiadu dull pob oed o ddysgu pawb gyda'i gilydd ar yr un thema. Yn eu tro, daeth mentrau fel Agor y Llyfr, Emaus ac Alfa, Llan Llanast a Chwarae a Chredu ac Ap Arwyr Ancora yn Gymraeg, gan gynnig syniadau a dulliau amgen o weithio gyda phlant. Ym maes cerddoriaeth cafwyd llyfrau emynau a chaneuon *Glas Glas Blaned* a *Canu Clod*, gyda dros 500 o ganeuon cyfoes i blant.

Llwyddwyd i gofleidio'r byd digidol newydd, gan fentro i fyd adnoddau arloesol ar y we, yn ffilmau, emynau ac

adnoddau Beiblaidd digidol. Erbyn hyn daeth cyfle i fentro i fyd pellgyrhaeddol a heriol Deallusrwydd Artiffisial (AI) hefyd. Yn y dyfodol, bydd yn her ceisio sicrhau bod y gwirionedd oesol am gariad Iesu yn cael ei gyflwyno'n gywir, gydag integriti, ac mewn dull sy'n ddealladwy i genhedlaeth newydd eto o blant. Tybed i ble aiff byd TikTok ac Instagram â'r genhadaeth i'r dyfodol?

Erbyn hyn mae gan y Cyngor bum gwefan, yn cynnwys pob math o ddeunydd i gefnogi ysgolion Sul ac addysg Gristnogol yn ehangach. Yn eu plith y mae gwefan www.beibl.net a www.gobaith.cymru, sy'n gartref i gyfieithiadau o emynau cyfoes a rhai gwreiddiol yn Gymraeg. Mae llawer o adnoddau i'w cael yn rhad ac am ddim bellach, a gellir eu lawrlwytho'n syth i'w hargraffu neu eu taflunio.

Er mai drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg yn unig y mae'r Cyngor yn gweithio, cafwyd cyfle i gyfrannu at y gwaith ar lwyfan ehangach yn ogystal drwy ymroi i waith rhwydwaith plant eglwysi Prydain ac Iwerddon a'r rhwydwaith gweithwyr plant Ewropeaidd. Ffrwyth y gwaith hwnnw oedd cynhyrchu pecynnau i hyfforddi athrawon ysgolion Sul fel *Caleidosgob* a *Dal d'afal*, ac yn fwy diweddar gwrs ar lein drwy wefan TheologyX.

Teimlwyd o'r dechrau ei bod hi'n bwysig bod y Cyngor yn weledol ac yn bresennol yn nigwyddiadau'r enwadau ac ar y maes cenedlaethol ehangach. Drwy




gydol yr amser llwyddwyd i fod yn bresennol yn yr Eisteddfod Genedlaethol a'r Sioe Fawr ac mewn digwyddiadau enwadol, gan gyfarfod pobl wyneb yn wyneb i gynghori a chefnogi. Trefnwyd teithiau adnoddau, gan ymweld â thua 30 canolfan bob blwyddyn.

Mae'r dirwedd grefyddol yng Nghymru wedi newid yn ddirfawr ers 1966, pan oedd trwch y plant o aelwydydd Cymraeg yn blant o gefndir eglwysig ac ysgol Sul. Yn 1966 roedd yna ysgol Sul ym mhob un capel, bron, a degau o filoedd yn mynychu'r amrywiol ysgolion Sul. Ond dros y blynyddoedd gwelwyd prysurdeb cynyddol ar y Sul o ran chwaraeon a digwyddiadau eraill sy'n denu plant. Yn ogystal, gwelwyd patrymau teuluol yn newid yn sylweddol, yn arbennig yn dilyn y pandemig a'r cyfnod clo, a gwelwyd llawer o'r gwaith yn diflannu dros nos. Fodd bynnag, diolch am y cylchoedd a aeth ati i arloesi, gan sefydlu grwpiau canol wythnos a mentrau cenhadol newydd. Diolch am ddygnwch a dyfalbarhad yr eglwysi hynny sy'n dal i ddarparu ar gyfer anghenion ysbrydol plant Cymru mewn amryw ffyrdd.

Diolch am gefnogaeth y pum enwad a gafodd y weledigaeth o sefydlu'r Cyngor yn 1966, ac am eu nawdd cyson. Gweddïwn am arweiniad clir ac am fendith Duw wrth geisio addasu a darparu ar gyfer yr eglwys a gweithgarwch plant ymlaen i'r dyfodol.

Cofio Eifion Wyn yn Eifionydd



Ddydd Mawrth, 13 Hydref, ar achlysur 100 mlynedd ers marw Eifion Wyn, gwahoddir pobl i ymgasglu ger ei fedd ym mynwent Chwilog am 2.00 i gofio am ei fywyd ac i ganu ei emyn 'Efengyl Tangnefedd'. Oddi yno bydd cyfle i gerdded i gapel Siloh, Chwilog, lle cawn ddarlith yn cael ei thraddodi gan Tudur Dylan Jones ar hanes y bardd a'r emynydd.

Hefyd y noson honno, cyflwynir darlith gan Dr Gwynne Wheldon Evans yng nghapel y Porth, Porthmadog.

Yna, ar 18 Hydref cynhelir Cymanfa Ganu yng nghapel Peniel, Tremadog, er mwyn canu detholiad o emynau Eifion Wyn.

Y Traethodydd ar faes y Brifwyl



Cynhaliwyd cyfarfod pwysig bawn Mawrth, 2 Awst, ar faes Eisteddfod Genedlaethol y Garreg Las, i hyrwyddo gwerthiant *Y Traethodydd*, yr hynaf o'n cylchgronau llenyddol, a chodi'i broffil yn gyffredinol.

Yr Archdderwydd Mererid, hithau'n aelod o'r Bwrdd Golygyddol, a groesawodd y gynulleidfa i Babel Prifysgol Aberystwyth, i wrando ar sylwadau'r newyddiadurwr Dylan Iorwerth a chlywed crynodeb o hanes sefydlu'r cylchgrawn yn 1845 gan y Dr Eryn White, hithau hefyd yn aelod o'r Bwrdd Golygyddol.

Trafododd Dylan yr heriau o gyhoeddi cylchgrawn print Cymraeg mewn oes ddigidol, ond anogodd ni i fwrw ymlaen am fod cyn lleied o lwyfannau ar gyfer cyhoeddi deunydd safonol bellach ar gael. Clywsom gan Eryn mai breuddwyd Lewis Edwards oedd sefydlu'r *Traethodydd* ar batrwm cylchgronau Saesneg fel *Blackwood's Magazine*, *The Quarterly Review* ac eraill, er mwyn ehangu cylch diwylliant y Cymry ac ehangu eu gwybodaeth o'r byd. Gyda chymaint o'r cylchgronau hynny wedi hen ddiflannu, y rhyfeddod yw bod *Y Traethodydd* yn dal i ffynnu.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn dan gadeiryddiaeth y Golygydd, yr Athro D. Densil Morgan. Soniwyd am yr angen i fod yn ddigon ystywyth i ymateb i anghenion yr oes a'r un pryd sicrhau deunydd safonol a fydd yn cynnal diddordeb y darllenwyr.

Mynegwyd gofid nad oedd y cylchgrawn bellach yn derbyn arian cyhoeddus ond diolchwyd i Eglwys Bresbyteraidd Cymru am barhau i noddi'r *Traethodydd* fel rhan o'i chenhadaeth. Y pris yw £7.50 y rhifyn, bedair gwaith y flwyddyn neu £30 am flwyddyn gyfan. Gellir ei archebu trwy gysylltu â Rhian Melhuish yn swyddfa Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Capel y Tabernacl, 81 Heol Merthyr, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 1DD.

Cytunodd pawb fod y cyfarfod yn un buddiol, a hyderwn, ar ôl 181 o flynyddoedd, y bydd *Y Traethodydd* yn mynd o nerth i nerth.

D. Densil Morgan

Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26



Codi'r Llen 37

Ymson Abisag

Fel Sinderela fy nghyfnod, dewiswyd fi am fy mod yn hardd ac yn addas i'r diben. Roedd y brenin yn heneiddio ac angen rhywun i'w gadw'n gynnes. Felly, fe'm gosodwyd yn fy lle i ymgeleddu Dafydd. Sylwais fod ei nerth yn pallu fesul dydd a fesul awr; roedd fy egni innau felly'n rymus ac yn werthfawr. Byddai rhai'n dweud nad oedd gennyf ddewis – yntau'n frenin a minnau'n ifanc a diniwed; serch hynny, arhosais yno'n driw wrth ei ochr.

Os ewch i chwilio amdanaf yn y cofnodion, gwn na fydd pentyrru geiriau yno amdanaf. Hawdd felly ichi i fy anghofio, ac efallai na fu ichi sylwi arnaf hyd yn oed cyn heddiw. Ond ar y pryd doeddwn i ddim yn ddibwys. Gofalais am frenin oedd yn byw mewn oerfel deublyg: cryndod corfforol ac ofn marwolaeth.

Tu fas i furiau ei ystafell roedd dynion wedi dechrau cecru ynglŷn â dyfodol y frenhiniaeth: rhai'n cynllwynio, rhai'n trafod, eraill yn dewis eu hochr. Crwydrai'r sibrydion yn llechwraidd fel cysgodion rownd corneli'r palas. Roedd Adonia, un o feibion Dafydd, eisoes wedi cyhoeddi ei fod yn dymuno bod yn frenin. Gwyddai pawb mai mab Bathsheba, Solomon, yr oedd Dafydd wedi'i ddewis i'w olynu, ond roedd Adonia yn parhau i gynhyrfu'r dyfroedd. Gwnaeth bopeth yn ei allu i'w sefydlu ei hun ac roedd nifer fawr yn ei gefnogi. Os na fyddai Bathsheba'n gweithredu, fe fyddai'n rhy hwyr.

Ro'n i yno, yn y gornel, pan fentrodd Bathsheba at erchwyn gwely Dafydd. Llwyddodd i'w berswadio a chysyniodd Dafydd i'w dymuniad: Solomon fyddai'r brenin nesaf.

Ond roedd Adonia'n olygus ac ro'n i wedi'i weld yn syllu arnaf. Roedd cyswllt rhyngom yn sicr, a gwyddai'n iawn fy mod yn rhan o gylch cyfrin Dafydd. Felly, pe byddai'n fy mhriodi, byddai hynny'n rhoi grym a siawns newydd iddo i gipio'r frenhiniaeth.

Parhau i ofalu'n ffyddlon wnes i ac felly y bu hyd nes y cymerodd Dafydd ei anadl olaf. Roedd yr enaid y bŵm yn gofalu amdano wedi gorwedd yn llonydd am y tro olaf, a fedrwn i fyth ei gynhesu eto. Anodd hynny, a minnau wedi cynefino â'm dyletswydd.

Yna, unwaith eto cefais fy nal ynghanol trobwll. Doedd gen i ddim llais, ond roedd pawb yn siarad amdanaf. Doedd gen i ddim dewis, ond roedd pawb yn ceisio penderfynu drosod. Plediodd Adonia ar Bathsheba i fynd at ei mab, Solomon y brenin, i ofyn am ganiatâd i fy mhriodi i. Syndod imi oedd deall iddi gytuno. Ond, wrth gwrs, fe welodd Solomon drwy'r tric. Lladdwyd Adonia yn fuan wedyn. Anwybyddwyd fi wedi hynny, heb ystyried fy nheimpladau am eiliad.

Holais yn aml ai gynhesu rhywun arall fyddai fy unig swyddogaeth? Beth fyddai wedi digwydd pe bai Adonia wedi byw, wedi fy ngweld am yr hyn yr oeddwn i, ac nid am yr hyn y gallwn ei roi iddo. Roedd gen i enaid hardd yn ogystal. Dyhëwn am gael fy ngweld.

Holi

- Cyflwynir Abisag inni'n unig fel rhywun hardd sy'n cyflenwi gwres a gofal i Dafydd. Pam, yn eich barn chi, nad ydym yn clywed ei llais? Sut fyddai eich ymateb yn newid pe bai'r stori'n cael ei hadrodd o bersbectif Abisag, neu Bathsheba, neu hyd yn oed Adonia?

- Mae rhywbeth yn waelodol anghyfforddus am y stori hon. Ymddengys nad oedd gan Abisag unrhyw ran yn ei ffawd ei hun. Beth os mai'r ymateb mwyaf gonest yw derbyn y stori fel un sy'n ein gwneud yn anghyfforddus, yn hytrach na cheisio troi dioddefaint Abisag yn wers gadarnhaol?

- Pe bai stori Abisag yn cael ei hadrodd o'r newydd heddiw, pa gwestiynau fyddai'n codi? Beth am barch, urddas, cydsynio, ecsbloetio, cyfiawnder a thegwch?

- Oes gwahaniaeth rhwng dweud 'mae'r Beibl yn cofnodi hyn' ac 'mae'r Beibl yn cefnogi hyn'? Ydy'r Ysgrythur weithiau'n rhoi llais i'r di-lais, er mor gynnil hynny?

Gweddi

Iôr annwyl, weithiau 'dyw pethau ddim yn synhwyrrol inni.

Yn aml, ry'n ni'n ymdrechu i roi darnau'r jig-so yn eu lle, ond yn methu.

Rwyt ti'n Dduw sy'n ein derbyn yn gyfan:

ein deallusrwydd a'n diffygion, ein hymdrechion a'n cyflawniadau.

Rwyt ti'n ein dathlu ac yn ein caru fel yr ydym.

Diolch am y Gras sy'n gofalu'n driw amdanom ac yn ein cynhesu. Amen.

Siân Meinir



Cyhoeddiadau Radio a Theledu, 4 Hydref 2026

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 4 Hydref, am 7:30yb a 4:30yp
Emynau Eifion Wyn yng nghwmni Iwan Llewelyn Jones

Oedfa Radio Cymru

Sul, 4 Hydref, am 12:00yp

Gwasanaeth diolchgarwch o dan arweiniad Elin Maher, Casnewydd

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 4 Hydref

Ni fydd rhaglen yr wythnos hon oherwydd y gêm bêl-droed rhwng Cymru a Denmarc

Robert Raikes 1736–1811

Hyrwyddwr yr ysgol Sul yn Lloegr

Ganwyd Robert Raikes yng Nghaerloyw ar 14 Medi 1736, yr hynaf o saith o blant i'r argraffydd Robert Raikes a'i briod Mary. Sefydlodd ei dad y *Gloucester Journal* ym 1722 ac fe etifeddodd y busnes ar ôl marwolaeth ei dad. Ym 1767 priododd Anne Trigge ac fe gawsant ddeg o blant. Bu farw dau ohonynt yn eu plentyndod. Roedd gan Raikes natur ddyngarol a dangosai ofal mawr dros y tlawd a'r gorthrymedig ac yr oedd yn pryderu am y cam-drin oedd yn digwydd yng ngharchar Caerloyw. Ymwelai'n gyson â'r carchar gyda rhoddion a cheisiai wella amgylchiadau'r carcharorion. Rhoddodd lety i John Howard, yr arloeswr mewn diwygio carchardai, pan ymwelodd â Chaerloyw ym 1773.

Gwasanaethu'r tlawd

Daeth y weledigaeth o gynnal ysgol Sul i Raikes pan oedd ar ymweliad ag un o ardaloedd tlotaf Caerloyw. Aeth yno i logi garddwr ac wrth siarad gyda gwraig y garddwr sylwodd ar gyflwr criw o blant aflywodraethus gerllaw. Dywedodd hi wrtho fod y sefyllfa yn waeth ar y Sul gan ei fod yn ddiwrnod i ffwrdd o'r gwaith iddynt. Byddai'n cael ei dychryn gan eu hymddygiad, eu tyngu a'u rhegi ac nid oedd eu rhieni yn malio'r un botwm corn amdanynt. O ganlyniad ymwelodd Raikes â'r Parchg Thomas Stock oedd yn guraid mewn plwyf cyfagos ac yn athro profiadol, a datblygodd y syniad o sefydlu ysgol Sul. (Nid hon oedd yr ysgol Sul gyntaf yn Lloegr gan fod y Methodistiaid cynnar wedi cynnal cyfarfodydd i blant. Cynhaliodd Hannah Ball o High Wycombe ysgol Sul i blant ac yng Nghaerloyw ym 1777 cychwynnodd Sophia Cooke a'i chwaer ysgol Sul gyda'r plant oedd yn gweithio yn ffatri binnau ei thad.)

Gosod sylfeini

Dewiswyd pedair gwraig addas a oedd eisoes yn cadw ysgol. Ymwelsant â chartrefi yn y dref gan berswadio rhai rhieni i anfon eu plant i'r ysgol Sul. Gwnaed rhestr o 90 o blant rhwng pump a phedair ar ddeg oed. Dim ond un rheol oedd i fynychu'r ysgol sef bod yn rhaid iddynt olchi eu dwylo a'u hwynebau a chribo eu gwallt. Ar y dechrau cynhelid pedwar dosbarth mewn amrywiol leoliadau. Cynhelid un mewn tŷ ac un arall yn Sooty Alley wrth ymyl y carchar. Dysgwyd y plant i ddarllen a sillafu ond ddim i ysgrifennu, gan mai eu galluogi i



ddarllen y Beibl oedd y nod. Roeddent hefyd i ddysgu adnodau o'r Beibl, holwyddoreg ac emynau ar eu cof. Gwaharddwyd rhegi a dysgwyd y disgyblion i barchu eu rhieni. Disgwyliid iddynt hefyd fynychu oedfa mewn eglwys ar y Sul.

Llwyddiant ysgubol

Yn raddol tyfodd y mudiad a chyhoeddodd Raikes erthyglau yn ei bapur, y *Gloucester Journal*, i hyrwyddo'r gwaith. Dywedodd yn y papur ar 3 Tachwedd 1783 fod nifer o offeiriaid mewn amrywiol ardaloedd o Loegr wedi sefydlu ysgolion Sul. Mynegodd esgobion Caer a Salisbury eu cefnogaeth fawr i'r gwaith a chyhoeddodd Samuel Glasse, cyfaill i Raikes, gyfrol yn hyrwyddo'r mudiad sef *The Piety, Wisdom and Policy of Promoting Sunday Schools* (1786). Oherwydd y llwyddiant mawr sefydlodd y Bedyddiwr William Fox y Sunday School Society ym 1785 a'r Sunday School Union ym 1803. Erbyn 1818 roedd 500,000 o blant yn mynychu ysgol Sul; erbyn 1851 cynyddodd y nifer i 2,500,000 ac erbyn 1898 roedd y nifer wedi cyrraedd 7,500,000. Roedd yr ysgol Sul nid yn unig yn cyflwyno Cristnogaeth i dlodion, ond hefyd yn rhoi addysg elfennol i blant dosbarth gweithiol na fyddent yn ei chael fel arall. Pan ddaeth addysg orfodol ac



Rhaglen Dysgu a Datblygu Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

MODIWL Y SACRAMENTAU

Cynhelir y modiwl uchod dan arweiniad y
Parchedig Carwyn Siddall
ar y dyddiadau isod:

Nos Lun, 7 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 14 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 21 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 28 Medi	7:30 – 9:00	Zoom
Nos Lun, 5 Hydref	7:30 – 9:00	Zoom
Dydd Llun, 12 Hydref	10:00 – 3:00	Aberystwyth

Bydd y modiwl yn cynnig cyfle i ofyn 'beth yw sacrament?', edrych ar sylfeini Beiblaidd y sacramentau, ein dealltwriaeth ohonynt, a'r wedd ymarferol a berthyn iddynt.

I gofrestru, cysylltwch â'r Parchedig Carwyn Siddall:
carwyn@annibynwyr.cymru

Croeso cynnes i bawb



COFIO EIFION WYN YM MHORTHMADOG

Gan fod eleni yn flwyddyn cofio canmlwyddiant marwolaeth Eifion Wyn, y bardd o Borthmadog, cynhelir tri digwyddiad i ddathlu ei fywyd:

NOS IAU, HYDREF 8^{fed}
am 7 o'r gloch
yn Y Ganolfan, Porthmadog:
Cyngerdd gan ddoniau lleol,
yn cynnwys ysgolion y cych.

NOS FAWRTH, HYDREF 13^{eg}
am 7 o'r gloch
yng Nghapel y Porth, Porthmadog:
Darlith ar ei fywyd a gwaith Eifion Wyn
gan Dr Gwynne Wheldon Evans, Porthmadog.

NOS SUL, HYDREF 18^{fed}
am 7 o'r gloch
yng Nghapel Peniel, Tremadog:
Cymanfa Ganu.
Arweinydd: Parch Iwan Llewelyn Jones.
Organydd: Rhys Glyn, Tremadog.
Unawdydd: Treflyn Jones, Porthmadog.
Cyflwynydd: Parch Christopher Prew.

*Dewch yn llw i'r tri digwyddiad
i gofio un o feirdd nodedig Cymru.*



ysgolion dyddiol ym 1870 lleihaodd y niferoedd yn yr ysgol Sul.

Ymddeolodd Raikes o'i waith ym 1802 ar bensiwn o £100 y flwyddyn gan y *Gloucester Journal*. Bu farw ar 5 Ebrill 1811 a chladdwyd ei weddillion yn St Mary le Crypt, Caerloyw. Ym 1880 gosodwyd cerflun ohono gan Sir Thomas Brock ar yr Embankment yn Llundain.

Barn Annibynnol

Câr dy gymydog

Dros yr haf cefais y fraint o dreulio diwrnod yn ninas Chania ar ynys Creta. Yng nghanol adeiladau bendigedig yr ynys, a'i chyfoeth hanesyddol, mae eglwys San Nicolas, ac iddi hanes diddorol. Bu'r adeilad mewn amrywiol ddwylo dros y canrifoedd. Dechreuodd fel cadeirlan Gatholig Fenisaid o'r 14eg ganrif, cafodd ei drawsnewid yn Fosg Hünkar gan yr Otomaniaid yn yr 17eg ganrif, ac yn ddiweddarach daeth yn eglwys Gristnogol Uniongred ym 1918. Gyda'r traddodiad uniongred y mae'r eglwys hyd y dydd hwn.

Gwahardd

Yn ddiweddar gwelwyd ymgyrch gan yr asgell dde eithafol yn gofyn i lywodraeth Prydain wahardd troi hen gapeli neu eglwysi i mewn i fosc Mwslimaidd. Yn benodol, mae plaid Reform UK yn addo cyflwyno deddfwriaeth fydd yn rhoi statws cofrestredig i 40,000 o addoldai Cristnogol fydd yn ei gwneud hi'n anodd iawn i newid pwrpas neu ddefnydd yr adeilad. O'r miloedd o adeiladau eglwysig sydd wedi cau ar draws Prydain dros y degawdau diwethaf, mae tystiolaeth yn awgrymu mai tua 40 o'r rheiny sydd wedi eu troi i fod yn addoldai Mwslimaidd, gyda hen gapel y

Crwys yng Nghaerdydd yn un o'r rhai amlycaf. Ond os credwch chi Reform fe fyddwch yn credu fod Islam ar fin rhoi diwedd ar Gristnogaeth.

Bwydo casineb crefyddol

Ar yr un pryd ag y mae gwleidyddion asgell dde yn codi cynnen am ailgylchu adeiladau eglwysig, mae hi'n amlwg fod drwg deimlad yn erbyn Mwslimiaid yn cael ei fwydo yn ddyddiol. Ar oymdeithiau Tommy Robinson fe welir pobl yn dal baneri yn sôn yn ffaidd am Islam, ac ar yr un pryd gwelir unigolion yn gofyn cwestiwn am sut y gall pobl ddilyn llyfr (y Qur'an) tra bod ynddo storïau mor waedlyd? Cwyn gyffredin gan yr asgell dde yn erbyn Islam yw eu bod nhw'n dilyn y Proffwyd Mohamed ag yntau wedi priodi Aisha tra'i bod yn blentyn. Wrth gwrs, i'r rheiny sy'n gyfarwydd â'u Beibl, mae'r fath gwynion yn erbyn Islam yn hurt – o ystyried penodau niferus yn ein Beibl ni sy'n tystio i drais a hil-laddiad, a mwy o amrywiaethau perthynas ac ymddygiadau annifyr nag sydd gan Heinz yn eu tuniau.

Estyn llaw

Yng nghanol y tensiwn sy'n cael ei fwydo, a hwnnw yn aml yn enw Crist, tybed a ddylai eglwysi fod yn estyn llaw cyfeillgarwch i'n teuluoedd mwslimaidd yn lleol? Mae mosgiau yn cael eu difrodi yn gyson, ac mae nifer o foscgiau wedi gorfod cuddio'u pwrpas gan dynnu eu



harwyddion i lawr. Gwyddwn yn iawn nad Mwslimiaid fydd y targed olaf i eithafwyr asgell dde. Mae eu hymosodiadau ar bobl y bad achub yn dangos nad oes diwedd i'w casineb. Yn ddiweddar bu i ficer Doncaster, y Parchg Richard Frith orfod galw'r heddlu am fod eithafwyr asgell dde yn bygwth ei eglwys am ei fod e wedi mynegi ei farn yn erbyn rali asgell dde yn y ddinas.

Gyda'n cyfeillion mwslimaidd dan y fath fygythiad, tybed a ddylai'n heglwysi ni fod *nawr* yn estyn llaw cyfeillgarwch a diogelwch iddyn nhw? A ddylen ni fod yn cynnig cartref yn ein festri i Fwslimiaid allu gweddio a chreu'r cyfle i ni weithio ar y cyd i wasanaethu'n cymunedau a'n byd? Beth fyddai lesu'n ei awgrymu?

Geraint Rees

(Nid yw'r hyn a ysgrifennir yn yr erthyglau Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr nac ychwaith y tîm golygyddol.)

Heddwch neu dangnefedd? – parhad

cyfieithiad gwell yn Beibl.net o ran ystyr (yn bersonol rwy'n hoff iawn o'r ymadrodd 'gwyn eu byd' ac o'r gair 'tangnefedd'): 'Mae'r rhai sy'n hyrwyddo heddwch wedi'u bendithio'n fawr, oherwydd byddan nhw'n cael eu galw'n blant Duw.'

Hyrwyddo

Hyrwyddo heddwch rhwng pobl o wahanol genhedloedd a diwylliannau yw'n cyfrifoldeb fel disgyblion i Iesu, gwneud heddwch yn ein bywydau ein hunain yn ein perthynas â'n cymdogion a'n gelynion (carwch eich gelynion, medd Iesu) er mwyn i ni allu bod yn rhan effeithiol o ymdrech oesol plant Duw i hyrwyddo heddwch yn ein byd.

Cymodi

Yn ei lythyr at yr Effesiaid mae Paul yn pwysleisio taw dyma reswm yr ymgawdoliad, y rheswm yng nghynllun Duw i Iesu ddod i'n plith, fe ddaeth er mwyn cymodi'r ddynoliaeth â'r Creawdwr, i achub y byd, a rhan o'r

broses honno yw cymodi'r cenhedloedd â'i gilydd drwy'r Eglwys.

Oherwydd ef yw ein heddwch (εἰρήνη) ni. Gwnaeth y ddau, yr Iddewon a'r Cenhedloedd, yn un, wedi chwalu trwy ei gnawd ei hun y canolfur o elyniaeth oedd yn eu gwahanu. . . . Ac felly, i wneud heddwch, creodd o'r ddau un ddynoliaeth newydd ynddo ef ei hun, er mwyn cymodi'r ddau â Duw, mewn un corff, trwy'r groes; trwyddi hi fe laddodd yr elyniaeth. Fe ddaeth, a phregethu heddwch i chwi y rhai pell, a heddwch hefyd i'r rhai agos. (Effesiaid 2:13–17).

Cymodi'r amrywiol genhedloedd a'r diwylliannau â'i gilydd ac â'r Creawdwr, cydweithio â Duw i ddwyn y ddynoliaeth newydd i fodolaeth yw cyfrifoldeb yr Eglwys, y corff, plant Duw! Dyma ran anhepgor o waith y groes, dyma broses achubiaeth.

Guto Prys ap Gwynfor

— Cyngerdd coffa —
Meirion Williams

📍 Capel Cymreig y Boro
90 Southwark Bridge Rd. Llundain SE1

📅 Nos Sadwrn 3ydd Hydref 2026

🕒 7pm

Er budd hosbis plant

 Tŷ Hafan



Tocynnau ar gael trwy:
<https://wegottickets.com/event/693992/>

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:
John Jones
07770 268169 | johnjones.calan@gmail.com

Cerddoriaeth sy'n parhau

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**Y Parchg Ddr Alun Tudur**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS

Ffôn: 02920 490582

E-bost: tyst@annibynwyr.cymru**Golygyddion****Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE

Ffôn: 01766 513138

E-bost: IwanLlew@aol.com**Alun Lenny**Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX

Ffôn: 01267 232577 /

0781 751 9039

E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:****Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**Busnes Glanrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ

Ffôn: 01792 795888

E-bost: undeb@annibynwyr.cymru**Dalier Sylw!**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan
Bwyllgor Llywio'r Adran
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a
wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Sut mae'r tywydd?

Mae'n siŵr ein bod ni'n aml yn dyheu am dywydd sych a chynnes yng Nghymru. Yn wir, mae miloedd ohonom yn dewis mynd ar wyliau bob blwyddyn i wledydd sych a phoeth. Eto, pan mae Cymru'n profi 'heatwave', mae llawer ohonom yn ei ffeindio'n anodd ymdopi ag e'. Wrth ddarllen y Beibl fe welwn fod yna amodau tywydd ysbrydol sydd â pheryglon gwirioneddol i'r Eglwys Gristnogol.

Tywydd ansefydlog difaterwch

Roedd eglwys Laodicea (Datguddiad 3:14–22) yn gyfoethog o ran pethau materol. Ond roedd ei chyflwr ysbrydol fel dŵr yr ardal, yn glae. Serch ei bod heb 'eisiau dim' yn faterol, yn ysbrydol roedd hi'n 'dlawd, heb feddu dim' (W.W.) Roedd yr eglwys yn trengi oherwydd difaterwch. Gwyddom fod llawer o Gristnogion yn dioddef erledigaeth ffaidd yn y byd heddiw, ond yn rhyfedd iawn mae'r eglwys yn cryfhau yn y gwledydd hynny. Sut? Oherwydd er ei bod yn dioddef mewn llawer ffordd, nid yw'n dioddef o ddifaterwch. Onid dyna 'silent killer' yr eglwys yn ein gwlad ni? Onid yw Crist yn ein poeri allan o'i enau?

Ond diolch iddo, 'Trugarog a graslon yw yr Arglwydd; hwyrfridig i lid, a mawr o drugarowgrwydd.' (Salm 103) Yn ei gariad mae'n ein cynghori i edifarhau ac 'i brynu [ganddo] aur wedi ei buro drwy dân, [er mwyn inni] ddod yn gyfoethog, a dillad gwyn i'w gwisgo, i guddio gwarth [ein] noethni, ac eli i iro [ein] llygaid, [er mwyn inni] gael gweld.' (Datguddiad 3:18) Mae'n curo'r drws ac yn addo dod mewn atom er mwyn i ni unwaith eto fwynhau ei gwmni.

Glaw cyson anwireded

Mae gwirionedd mae'r efengyl bob amser wedi herio pobl. Mae'n mynnu fod pobl yn llwyr hepgor pob ffydd a gobaith oedd ganddynt o'r blaen, a throi at Iesu. Mae wedi ei gynllunio i ddwysbigo ac argyhoeddi er mwyn i bobl edifarhau a derbyn yr iachawdwriaeth sydd ar gael i bawb. Ond mae gwell gennym llynu at yr hyn sy'n ein siwtio ni, rhyw efengyl DIY sydd, fel cymaint o waith DIY, yn syrthio'n ddarnau yn y pendraw. Onid



felly mae wedi bod erioed? 'Oherwydd fe ddaw amser pan na fydd pobl yn goddef athrawiaeth iach ond yn dilyn eu chwantau eu hunain, ac yn crynhoi o'u cwmipas liaws o athrawon i oglais eu clustiau, gan droi oddi wrth y gwirionedd i wrando ar chwedlau.' (2 Timotheus 4: 3–4)

Fe alwodd Iesu'r Ysbryd Glân yn Ysbryd y Gwirionedd, ac fe addawodd y byddai'n ein harwain yn yr holl wirionedd (Ioan 16).

Gwaith hyfryd iawn a melys yw moliannu d'enw di, O Dduw; sôn am dy gariad fore glas, a'r nos am wirioneddau gras.

(Isaac Watts,
cyf. Dafydd Jones)

Oerni rhylllyd diffyg cariad

Roedd eglwys Corinth wedi ei bendithio ag amryw o ddoniau ysbrydol. Roedd teimladau cryf yn rhedeg trwy'r eglwys, teimladau oedd yn aml yn arwain at gweryla ac ymraniadau. Mae'n amlwg fod eglwys Corinth yn ddiffygiol mewn cariad agape. Nid cariad yn seiliedig ar deimladau neu emosiynau yw agape, ond cariad sy'n seiliedig ar ein hewyllys a'n dewis. Beth bynnag yw'n teimladau a'n doniau, mae Duw'n mynnu ein bod yn gwneud yr hyn sy'n iawn yn ei olwg ef. Diolchwn fod Paul wedi esbonio'n glir yn 1 Corinthiaid 13 yr

hyn yw agape mewn gwirionedd. Mae'n ffaith drist bod llawer o ymraniadau yn bodoli mewn gormod o eglwys.

Corwynt cyfaddawdu

Does neb ishe bod yn amhoblogaidd. Mae comedïau fel *Motherland* a'i 'spin-off' *Amandaland* yn dangos mor bell mae pobl yn mynd er mwyn peidio â bod yn amhoblogaidd. Fe ddywedant unrhyw beth, gwir ai peidio, er mwyn sicrhau eu bod nhw'n 'in' gyda'r bobl sydd, yn eu golwg nhw, yn cyfri (nodwedd amlwg o'r Cymry dosbarth canol efallai?)

Mae yna gyfnodau pan mae'r eglwys yn mwynhau 'ewyllys da'r holl bobl' (Actau 2), ond nid yw'n para'n hir. Yn sicr nid yw Duw yn galw arnom i fynd mas o'r ffordd i fod yn amhoblogaidd. Peth da fyddai i ni gofio ein bod i rannu'r Efengyl 'gydag addfwynder a pharchedig ofn' (1 Pedr 3). Ond nid yw Duw wedi ein galw i fynd mas o'r ffordd i fod yn boblogaidd chwaith.

Mae wedi bod yn demtasiwn erioed i'r Eglwys gyfaddawdu gyda'r byd, a hynny er mwyn ceisio osgoi amhoblogrwydd ac er mwyn ymddangos yn berthnasol. Fe ddywedodd yr Esgob J. C. Ryle, 'When a generation tolerates sin, the next will celebrate it, and the generation after them won't even know it's a sin.' Yn y degawdau diwethaf, mae'r Eglwys nid yn unig wedi eistedd nôl wrth i'r broses yma ddigwydd, ond mae wedi ymuno yn y broses. Mae'n amlwg fod llawer yn credu fod Duw wedi newid ei feddwl ynglŷn â llawer o bethau, ac y maent yn ddigon trahaus i ddweud eu bod yn gwybod pa bethau yw'r rheini. Mae'n werth cofio rhybudd Duw drwy'r proffwyd Eiseia, 'Gwae'r rhai sy'n galw drwg yn dda, a da yn ddrwg, sy'n gwneud tywyllwch yn oleuni, a goleuni yn dywyllwch, sy'n gwneud chwerw yn felys a melys yn chwerw.' (Eiseia 5:20)

Oni ddywedodd Duw, 'Oherwydd nid wyf fi, yr ARGLWYDD, yn newid'? (Malachi 3:6) Onid yw Brenin yr Eglwys Iesu Grist, 'yr un ddoe a heddiw ac am byth'? (Hebreaid 13:8)

Ie, tywydd ansefydlog yw'n tywydd ni, ond gadwech i ni geisio cadw'n amodau tywydd ysbrydol mor sefydlog â phosib.

Heini Jones
(Bethania, Y Tymbl)